GWIRFODDOLI

GISDA

DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

ADRODDIAD IONAWR - MEHEFIN 2015

GWIRFODDOLI YN GISDA

Mae gwirfoddolwyr wedi dod yn rhan bwysig iawn i GISDA dros y flwyddyn diwethaf. Ar gychwyn 2014 nid oedd gennym system wirfoddoli o gwbl. Roedd yn amlwg fod hyn yn fwlch mawr yn y cwmni a all fod o fudd mawr iawn i bobl y gymuned, pobl ifanc GISDA ac i'r cwmni'n uniongyrchol.

O edrych ar ystadegau Cymru, gwelwn yn 2014 fod 5.9% o bobl dros 16 yng Ngwynedd yn ddi-waith sef 3400 o bobl. Mae hyn yn gynnydd o 2000 bobl ers 2003**. Mae hyn yn amlygu'r angen am waith yn yr ardal, mae angen ymateb i ffaith nad oes gan nifer y sgiliau, profiadau na'r cymwysterau i gael mynediad i waith.

Drwy greu cyfleoedd gwirfoddoli gallwn arfog pobl gyda'r sgiliau sydd eu hangen i'w galluogi i symud ymlaen i swydd. Mae diweithdra ymysg pobl ifanc yr ardal, yn cynnwys pobl ifanc GISDA yn uchel iawn hefyd. Gall cyfleoedd gwirfoddoli helpu pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir neu byr, trwy eu gwneud yn fwy cyflogadwy a rhoi'r cyfle a chefnogaeth iddynt. Yn barod mae'r prosiect wedi datblygu a tyfu llawer ac wedi cael effaith bositif ar ein gwirrfoddolwyr presennol.

**(Annual population survey/local labour force survey: summary of economic activity, officer for national statistics, published by welsh government 19th March 2015).

Y BROSES WIRFODDOL:

Datblygwyd proses gwirfoddoli er mwyn galluogi i ni ymdrin a gwirfoddolwyr mewn ffordd effeithiol a teg. Datblygwyd Polisi Gwirfoddoli a threuliau gwirfoddoli, Ffurflenni Cyfweliad ac Arolygaeth a hefyd Llyfryn Anwytho. Bwriad y broses oedd i ddarparu cefnogaeth gyson i wirfoddolwyr yn ystod eu hamser yn gwirfoddoli, a'u bod yn gyfforddus a hyderus pan yn cychwyn gwirfoddoli ar ôl mynd drwy'r system anwytho. Mae'r broses anwytho yn cynnwys rhestr wirio sy'n mynd trwy bolisïau perthnasol y cwmni, lleoliad toiledau a chegin, esboniad o amser cinio ac yn y blaen.



CYFLEON

Ar ddechrau 2014 nid oedd llawer o gyfleoedd wirfoddoli yn GISDA. Datblygwyd y proses ac yna yn raddol daeth mwy a mwy o gyfleoedd ar gael i wirfoddolwyr. Mae ein mentrau cymdeithasol yn cynnig llawer o gyfle-oedd ac yna bydd amryw gyfle ar gael yn y prosiectau.

Te a Cofi—Agorwyd caffi Te a Cofi o ganlyniad i ennill grant Miliynau'r Bobl gan y Loteri Fawr. Mae'n ganolfan hyfforddiant anffurfiol i bobl ifanc ennill sgiliau yn y maes arlwyo. Mae'n bosib ennill cymwysterau a sgiliau ym mey-sydd hylendid bwyd, iechyd a diogelwch, cymorth gyntaf, sgiliau cyfathrebu a gwasanaeth cwsmer. Mae'r ganolfan ar agor i'r cyhoedd. Eleni mae Te a Cofi wedi prysuro ac maent yn dibynnu ar wirfoddolwyr i'w redeg o ddydd i ddydd. Mae'r gwirfoddolwyr yn cael amryw o sgiliau drwy delio a chwsmeriaid a chymryd archebion bwyd, defnyddio'r til a pheiriannau eraill fel y peiriant coffi, coginio, paratoi bwyd yn y gegin a hefyd yn glanhau a golchi llestri.

Fan Sgram- Mae'r fan fwyd yn mynd allan i fannau gwaith yr ardal gyda bwyd o gaffi Te a Cofi bob bore. Gall gwirfoddolwyr helpu gan fynd allan gyda gweithiwr i werthu cynnyrch a hefyd i baratoi'r bwyd o flaen llaw.

Cinematic– Sedydlwyd Cinematic gan grwp o ddefnyddwyr gwasanaeth i redeg busnes adloniant arloesol drwy ddefnyddio sgrin sinema enfawr symudol. Mae'r sgrin yn cael ei hurio gan ysgolion, clybiau ieuenctid a phartïon plant. Mae modd gwylio ffilmiau a chael cystadlaethau Xbox arno. Mae gan y prosiect hefyd beiriant cŵn poeth a phopcorn. Gall wirfoddolwyr gynorthwyo'r gweithiwr prosiect i fynychu digwyddiadau a gosod offer, cyfathrebu gyda chwsmeriaid a delio gydag arian wrth werthu cynnyrch.

SGLEIN- Mae'r fenter gymdeithasol SGLEIN wedi cael ei ddatblygu i ddarparu gwasanaethau glanhau i'r cwmni a hefyd yn ceisio cael cytundebau allanol. Mae gan y cwmni fenter sydd yn gweithio gyda gwirfoddolwyr a phobl ifanc GISDA. Gall gwirfoddolwyr helpu i hyrwyddo'r cwmni, creu cysylltiadau gyda chwsmeriaid a hefyd i wneud dyletswyddau glanhau cyffredinol.

Mae'r mentrau yma yn darparu'r rhan fwyaf o leoliadau i ein gwirfoddolwyr. Mae prosiectau GISDA yn aml yn derbyn gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda Grwp Rhieni, Rhieni Ifanc Ni, cynorthwyo gyda gweithgareddau Mentro Mlaen, Tim Pel Droed Gisda ac yn y blaen. Ein nod ydy cynyddu'r nifer o fentrau a chwilio am gyfleoen newydd.

YSTADEGAU

Yn y chwe mis diwethaf mae'r niferoedd sy'n gwirfoddoli neu'n gwneud ymholiad am wirfoddoli wedi cynyddu. Wrth i'r nifer o gyfleoedd gynyddu yn y mentrau cymdeithasol, a Te a Cofi yn prysuro gwelwyd galw am fwy o wirfoddolwyr. Ers dechrau Ionawr 2015 rydym wedi derbyn 66 ymholiad gwirfoddoli sydd yn gynnydd ers 2014, gyda 56 ymholiad am y holl flwyddyn. Rydym yn derbyn cyfeiriadau gan amrywiaetj o fudiadau a'r mwyafrif o wirfoddolwyr yn dod yn uniongyrchol at GISDA drwy gysylltu dros y ffon, y wefan neu e-bost. Rydym hefyd yn cydweithio ac yn derbyn cyfeiriadau gan Mantell Gwynedd, Llwybrau Ni, Y Gwasanaeth Prawf, Remploy, Gwasanaethau Cymdeithasol, Canolfan Waith, CAIS ac yn fewnol gan ddefnyddwyr gwasanaeth GISDA.

CYFEIRIADAU IONAWR I MEHEFIN 2015





O'r ymholiadau yma roedd dros hanner ohonynt sef **37 wedi cael anwythiad** y cwmni ac yn barod i wirfoddoli ar ôl cael lleoliad perthnasol.

Mae **34 ohonynt wedi rhoi amser i wirfoddoli** mewn un neu fwy o brosiectau GISDA yn ystod y cyfnod hwn.

OEDRAN A RHYW GWIRFODDOLWYR

Mae oedran y gwirfoddolwyr yn amrywio, gyda **59% yn bobl ifanc o dan 25 oed** ac y 41% arall dros 25 oed. Mae **62% yn ferched** i gymharu â 38% o ddynion.





Mae unigolion yn gwirfoddoli am wahanol resymau gyda rhai yn ddi-waith neu mewn addysg ac yn ceisio cael profiadau, eraill yn gweithio ac eisiau helpu achos da. Mae dros hanner y bobl sydd yn, neu wedi, gwirfoddoli yn ddi-waith ac yn ceisio cael mynediad yn ôl ir byd gwaith drwy wirfoddoli i ennill sgiliau a profiadau.

4

Ar hyn o bryd mae 4 unigolyn gyda anghenion arbennig neu anabledd yn helpu yng Nghaffi Te a Cofi

4 defnyddiwr gwasanaeth Gisda yn gwirfoddoli yng Nghaffi Te a Cofi

4

1

1 unigolyn wedi cael swydd yn dilyn cyfnod o wirfoddoli yng Nghaffi Te a Cofi.

9 unigolyn wedi gwirfoddoli cyfanswm o dros 50 awr.

9

1579

O oriau wedi cael eu cwblhau gan wirfoddolwyr rhwng Ionawr i Fehefin 2015.

STORI RACHEL

Daeth Rachel atom trwy'r Ganolfan Waith yng nghanol mis Ionawr. Roedd Rachel wedi bod allan o waith am gyfnod hir gan ei bod wedi bod yn magu ei phlant. Erbyn hyn roedd y plant mewn addysg llawn amser ac roedd Rachel eisiau swydd hyblyg i gael mynd allan o'r ty, gan cyfathrebu a chyfarfod pobl newydd, trwy ennill sgiliau a profiadau. Nid oedd gan Rachel lawer o brofiad, felly daeth at GISDA i wirfoddoli. O'r cyfweliad cychwynnol roedd yn glir bod Rachel yn awyddus a brwdfrydig iawn. Cychwynnodd yn syth yng Nghaffi Te a Cofi ac roedd hi'n gwirfoddoli 3 diwrnod yr wythnos. Ymhen ychydig o wythnosau roedd y caffi wedi prysuro ac roedd galw am fwy o staff. Roedd Rachel wedi dangos gallu ac wedi bod yn ddibynadwy iawn. Cafodd Rachel ei chyflogi am 16 awr yr wythnos yn caffi Te a Cofi ac mae hi dal ati i weithio yn galed ac yn helpu i gynorthwyo'r gwirfoddolwyr newydd o ddydd i ddydd.

"Dwi'n mwynhau fy swydd newydd ac mae wedi gwneud cymaint o wahaniaeth i fy mywyd i a fy mhlant"

Rachel: Cynorthwyydd caffi Te a Cofi.

ADBORTH
CYN-WIRFODDOLWYR

Ar ddiwedd cyfnod gwirfoddoli rydym yn ceisio cael Cyfarfod Gadael gyda'r unigolyn i dderbyn adborth- mewn llawer o achosion nid yw hyn yn bosib gan ei fod yn anodd cael ymateb gan y gwirfoddolwyr. Rydym wedi derbyn 4 ffurflen adborth yn ôl. Y rhesymau am orffen gwirfoddoli oedd: 2 unigolyn wedi cael swydd, 1 ddim hefo digon o amser sbâr ac un arall yn mynd i wirfoddoli yn fudiad arall oherwydd roedd hi'n teimlo fel bod yna ormod o ofyn arni.

100% =O wirfoddolwyr sydd wedi gorffen yn "fodlon iawn" gyda'u hamser yn GISDA.

=Yn dweud bysent yn argymell GISDA i bobl eraill a diddordeb mewn gwirfoddoli

"Roedd y bobl yn wirioneddol gynnes a chyfeillgar. Rwyf yn meddwl eich bod yn gwneud gwaith gret - Daliwch ati."

"Y peth gorau am wirfoddoli yn y caffi oedd cyfarfod a phobl ifanc ac ein bod yn cael bwyd a diod am ddim."

COSTAU

Ar hyn o bryd mae gennym 14 unigolyn sy'n gwirfoddoli'n rheolaidd. Mae'r costau staffio i ddelio a'r gwirfoddolwyr pob wythnos yn cynnwys oriau Swyddog Datblygu i gyfweld gwirfoddolwyr a rhoi anwythiad. Mae hefyd yn cynnwys oriau swyddog y caffi sydd yn delio gyda chanran fawr o'r gwirfoddolwyr ac yn eu cynorthwyo ac anwytho yn y caffi. Mae'r adran gyllid hefyd ar gyfartaledd, yn rhoi dwy awr yr wythnos yn delio hefo treuliau gwirfoddolwyr.

Mewn wythnos arferol yn cynnwys costau staff, costau teithio a chostau cynhaliaeth mae gwirfoddolwyr yn costio £312.08. Mae gennym gyfanswm o 14 gwirfoddolwyr sydd yn gwirfoddoli cyfartaledd o 136 awr yr wythnos. Os rydym yn selio'r oriau yma ar gyflog o £7.85 yr awr, sef cyflog byw mae'n rhoi cyfanswm o werth £1,067.60 yr wythnos. Gallem weld bod hwn yn ffigwr uchel iawn sydd yn golygu bod gwerth £755.52 yn dod o oriau gwirfoddoli'r wythnos. Pe byddai'r ffigyrau gwirfoddol ac oriau yn aros yr un fath dros y flwyddyn gall hyn fod gyfwerth a £36000 i GISDA. Gall y ffigyrau yma newid yn sgil newid mewn nifer o wirfoddolwyr ac oriau. Mae'r ffigyrau hefyd yn ddibynnol ar le mae'r gwirfoddolwyr yn byw a faint o gostau teithio sydd yn cael ei hawlio pob mis.

BUDD GWIRFODDOLWYR

Dengys y ffigyrau yma fod gwerth ariannol gwirfoddolwyr yn uchel iawn i GISDA ac yn help mawr i elusen fach allu denu grantiau gwahanol a gallu rhedeg prosiectau gyda'u cymorth,

Mae cael gwirfoddolwyr yn rhan o'r cwmni yn **fuddiant arian-nol, ond hefyd yn fuddiant cymunedol**. Mae'n galluogi ni fel cwmni i ymglymu ac unigolion yn y gymuned a hyrwyddo'r cwmni. Maent hefyd yn help mawr i'r cwmni ac yn helpu gyda rhedeg ein mentrau cymdeithasol o ddydd i ddydd.

Mae gwirfoddoli yn dod a budd mawr i unigolion, i ennill sgiliau newydd, i fod yn rhan o'r gymuned a chyfarfod pobl newydd. Gall hybu opsiynau gwaith newydd, cael diddordebau a phrofiadau newydd a chael y teimlad o foddhad o helpu elusen. Bydd y cyfleoedd yn galluogi pobl di waith/bregus o wahanol gefndi-roedd i wirfoddoli ac ennill sgiliau gwaith. Trwy weithio gyda wa-hanol fudiadau, gallwn gyrraedd mwy o bobl.

Dros y misoedd nesaf, gobeithiwn y bydd y galw am wir-foddoli yn cynyddu ac bydd mwy o gyfleoedd gwirfoddoli amrywiol ar gael o fewn y cwmni.